

Rhagair

Ym myd cyfathrebiadau heddiw mae cysylltu yn dod yn ganolog i sut yr ydym yn ymwneud â'n gilydd ac â'r byd yn gyffredinol. Mae'r Panel yn cymryd y materion ynglŷn ag eithrio digidol yn ddifrifol iawn ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r trydydd sector i ddyfeisio atebion polisi sydd yn helpu i gau'r bwlch hwn. Y llynedd, cyhoeddwyd adroddiad ymchwil agweddol i gysylltedd Pobl Hŷn.¹ Edrychodd yr adroddiad ar beth oedd yn rhwystro ac yn galluogi'r grŵp hwn i gael eu cysylltu. Eleni rydym wedi canolbwyntio ein hymchwil ar blant o gartrefi incwm isel.

Mae dau reswm dros ein diddordeb yn y grŵp hwn. Yn gyntaf, mae ein holrheiniwr blynyddol, *Defnyddwyr a'r Farchnad Gyfathrebiadau: 2007*² yn parhau i ddatgelu bod y cartrefi hynny ar incwm isel wedi'u cysylltu'n llai nag adrannau eraill o gymdeithas. Yn 2007, roedd 36% o gartrefi incwm isel wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd o'i gymharu â'r cyfartaledd o 61% ar draws y DU³. Ac yn y DU yn gyffredinol, mae 63% o'r rhai sydd heb eu cysylltu yn meddwl nad oes angen iddynt fod wedi'u cysylltu.⁴

O ganlyniad i hyn, roeddem eisiau deall beth oedd y rhesymau agweddol ymysg y grŵp hwn dros beidio â chysylltu. Awgryma'r ymchwil hwn bod cyfres o rwystrau agweddol cymhleth o ran y rhieni – a thra bod costau yn chwarae rhan, mae ofnau eraill i'w goresgyn. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys: ofnau rhieni na fyddant yn gallu deall na rheoli'r cyfrifiadur; ofn cael eu gadael allan a'u hynysu o fewn y teulu ac ofn y bydd cynnwys anaddas yn dechrau treiddio i'w cartrefi.

Yr ail reswm dros fod â diddordeb cryf yn y pwnc hwn yw bod cenedlaethau o blant yn tyfu'i fyny o fewn y chwyldro cyfathrebiadau cyfredol ac mae'n cael effaith mawr ar y rhai sydd wedi cysylltu. Gall nifer ohonom gofio cyflwyniad cyfrifiaduron yn y cartref, poblogrwydd ffonau symudol, rhyngwrwd deialu. Ac eto, nid dyma atgofion torfol y genhedlaeth hon. Maent wedi'u trochi yn y byd digidol – gan ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel MySpace fel ymestyniadau o'u personoliaeth ac fel ffordd o gymdeithasu a chyfarfod pobl newydd, neu i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau; mae eu hagweddau tuag at breifatrwydd personol a'r wybodaeth a wnânt yn gyhoeddus yn wahanol i genedlaethau blaenorol. A thra yn y gorffennol yr oedd plant yn ffonio eu ffrindiau ar ôl ysgol i sgwrsio am ddigwyddiadau'r diwrnod, heddiw mae'r sgysiau yn cael eu cynnal ar-lein trwy gyfrwng MSN ac nid ar sail un i un ond ar sail un i lawer. Mae sgysiau hefyd yn digwydd ar draws ffiniau daearyddol.

Mae plant eu hunain yn cydnabod, yn yr adroddiad hwn, y rôl ganolog y mae'r byd ar-lein yn ei chwarae yn eu bywydau a bod y rhai heb ryngwrwd gartref yn teimlo eu bod dan anfantais hebdo. Mae rhai plant sydd heb eu cysylltu wedi

¹ <http://www.ofcomconsumerpanel.org.uk/publications/comms07/Consumersmarket2007.pdf>

² http://www.ofcomconsumerpanel.org.uk/publications/Older_People_and_Comms_FINAL.pdf

³ Defnyddwyr a'r Farchnad Gyfathrebiadau : 2007, tud17

⁴ Defnyddwyr a'r Farchnad Gyfathrebiadau : 2007, tud 27

gallu datblygu strategaethau i ymdopi gyda'u cyfoedion ar-lein ac yn y byd go iawn, tra bod y rhai sydd yn methu â datblygu'r strategaethau hyn yn darganfod eu bod yn cael eu heithrio ymhellach oddi wrth eu grŵp cyfoedion.

Mae'r holl blant yn cytuno bod angen sgiliau TG ar gyfer eu haddysg ac ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol. Mae nifer o rieni yn cydnabod bod cyfrifiadur a chysylltiad â'r rhyngwyd yn y cartref yn allweddol i lwyddiant addysg eu plant. Am y rhesymau hyn a'r rhesymau uchod bydd y Panel yn parhau i weithio'n agos gyda llunwyr polisi a'r diwydiant cyfathrebiadau yn ystod y flwyddyn nesaf i ddeall y materion hyn ymhellach ac i ffurfio argymhellion polisi i helpu i gau'r bwlch digidol.

Crynodeb Gweithredol

Mae technoleg yn rhan hanfodol a phwysig o fywydau teuluoedd.

- 1.1 Os oes ganddynt gysylltiad rhyngrwyd ai peidio mae gan y rhan fwyaf o deuluoedd amrediad eang o eitemau trydanol, nifer ohonynt yn eiddo i'r plant eu hunain.
- 1.2 Mae nifer o'r technolegau hyn yn cael eu hystyried yn deganau ac maent yn cael eu prynu fel anrhegion, tra bod cyfrifiadur a'r rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod yn eiddo i'r teulu. Mae eu prif gysylltiad gyda gwaith a gwybodaeth yn hytrach na hamdden fel pe bai yn gostwng eu safon fel anrheg.

Mae pob plentyn yn awyddus i gael y rhyngrwyd ac yn gweld manteision go iawn sydd yn llawer mwy nag unrhyw bethau negyddol.

- 1.3 Mae'r manteision allweddol i blant yn canoli ar gyfathrebu a chynhwysiant cymdeithasol. Hwylusir hyn yn arbennig trwy negeseuon ar unwaith (MSN) sydd yn caniatáu iddynt gyfathrebu'n rhydd gyda grwpiau o'u ffrindiau ac ehangu eu grŵp cymdeithasol.
- 1.4 Efallai bod cyflawniad addysgol yn ail o ran pwysigrwydd i nifer o'r plant; ond mae hynny hefyd yn ymddangos yn fantais wirioneddol. O 10 oed ymlaen mae pwysau gan ysgolion i gael y rhyngrwyd a syniad bod mynediad i'r rhyngrwyd yn caniatáu i'r myfyriwr parod gael cyflwyniad a chynnwys o ansawdd uwch.
- 1.5 Yn gyffredinol mae plant yn credu mai prif effaith peidio â chael rhyngrwyd gartref yw'r effaith ar rwydweithio cymdeithasol a datblygu hunaniaeth. Awgryma'r ymchwil hwn bod iddo rôl hefyd mewn ail gysylltu rhai o'r plant hynny sydd wedi'u datgysylltu yn addysgiadol gan eu bod yn mwynhau rheolaeth a hwyl gweithio gyda chyfrifiadur. Gall hefyd alluogi'r plant galluog yn academiaidd i ddarganfod rhagor o wybodaeth berthnasol ac i ymchwilio yn fwy effeithiol. I rai fodd bynnag, sydd â llai o ddiddordeb mewn gwaith ysgol, maent yn parhau i ddangos diffyg diddordeb os oes ganddynt rhyngrwyd ai peidio.
- 1.6 Mae pob plentyn heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn credu bod eu sgiliau technoleg a chyflymdra gyda chyfrifiaduron yn tueddu i fod yn is na rhai eu ffrindiau sydd â mynediad gartref.
- 1.7 Nid yw effaith cael rhyngrwyd yn syml ac mae'n dibynnu ar bersonoliaeth y plentyn a'r math o blentyn. Mae rhai yn fwy abl i fabwysiadu strategaethau ymdopi nag eraill. Yn gyffredinol mae pedwar math o blentyn.

- 1.8 **Arbenigwyr**, fel rheol bechgyn yw'r rhain sydd yn treulio llawer o amser ar ddiddordeb neilltuol, sydd yn aml yn dechnolegol ei sail. Maent yn ddefnyddwyr hynod o fedrus o'r rhyngwryd a nhw yn aml yw'r arbenigwr o fewn y teulu. Maent yn tueddu i fod â llai o ddiddordeb yn agweddau cymdeithasol y we. Gall diffyg mynediad effeithio'n niweidiol ar arbenigwyr gan na allant ddilyn eu diddordeb ac ni allant ddatblygu eu sgiliau cyn belled ag yr hoffent. Gallant deimlo y bydd dyfodol yn gweithio gyda thechnoleg yn cael ei lesteirio oherwydd nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwryd gartref.
- 1.9 **Arweinyddion**; fel yr awgryma'r enw, yw'r rhai sydd yn cymryd rheolaeth dros eu rhwydweithiau cymunedol a nhw yw'r rhai sydd yn tueddu i fabwysiadu pethau gyntaf cyn eu ffrindiau. Maent wrth eu bodd gyda'r rhyngwryd ar gyfer cymdeithasu a gwybod beth sy'n digwydd. Mae ganddynt y gallu i ymdopi yn dda heb y rhyngwryd a chael gwybodaeth a chysylltiad trwy ddefnyddio eu dyfeisgarwch. Nid ydynt cymaint dan anfantais â rhai plant sydd heb fynediad i'r rhyngwryd gartref.
- 1.10 **Dilynwyr**; hwn yw'r categori y mae llawer o blant yn perthyn iddo. Maent yn awyddus i gadw'i fyny gyda'r **Arweinyddion**, ond nid nhw yw'r cyntaf i roi cynnig ar bethau newydd. Mae'r plant hyn yn teimlo dan anfantais oherwydd nad oes ganddynt ryngwryd gartref. Mae'n hynod o bwysig i'r plant hyn eu bod yn gwybod y geiriau diweddaraf a bod mewn cysylltiad. Er eu bod wedi'u cymell yn ddigonol ac yn gallu cael mynediad mewn manau eraill (llyfrgell, tai ffrindiau) gallant ddal i deimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl o fewn eu rhwydweithiau cymdeithasol.
- 1.11 **Allanwyr**; nid oes ganddynt lawer o ffrindiau ac yn aml mae plant eraill yn eu gweld fel rhai sydd ar wahân yn gymdeithasol. Gall cael y rhyngwryd helpu'r allanwyr hyn ychydig. Yn aml ni chaiff yr unigolion hyn lais gan fod rhagfarnau ynglŷn â sut y maent yn edrych a'u hyder isel ac/neu sgiliau cymdeithasol gwael yn golygu eu bod yn cyfathrebu'n llai rhydd ac efallai nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn pan fyddant yn siarad. Ond gall **Allanwyr** deimlo'n fwy rhydd wrth gyfathrebu trwy MSN lle y maent yn fwy anweledig. Gall hyn annog eu derbyniad pellach ymysg y grŵp cyfoedion. Ond heb y rhyngwryd mae'r plant hyn yn parhau i fod wedi'u hanwybyddu gan nad ydynt yn gwybod beth yw'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd yn bwysig o fewn iard yr ysgol.

Ar y cyfan mae gwahaniaeth mawr rhwng y plant hynny sydd â mynediad rhyngwryd gartref a'r rhai heb fynediad. Mae'r rhai heb gysylltiad yn teimlo wedi'u gadael allan ac yn ynysig ac yn methu â chael mynediad i fyd y mae eraill yn ei gymryd yn ganiataol.

- 1.12 Mae graddau'r eithrio hwn yn dibynnu ar alluoedd a phersonoliaeth y plant. Gall **Arbenigwyr** deimlo eu bod yn cael eu dal yn ôl rhag dilyn eu diddordeb yn iawn, Gall **Arweinyddion** fod yn fedrus ac wedi'u

cymell i ddatrys y broblem o fynediad, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn. Gallant ddarganfod ffordd o gadw mewn cysylltiad ac yn aml maent yn dysgu sgiliau cymdeithasol o'r ffyrdd y maent yn darganfod mynediad i'r rhyngrwyd. Gall **Dilynwyr** ddarganfod ffyrdd eraill o gael mynediad ond gallant deimlo'n emosiynol eu bod yn ymdrechu i gadw'i fyny. Mae'n bosibl i **Allanwyr**, sydd eisoes ychydig allan ohoni, gael eu heithrio ymhellach

- 1.13 Nid yw cael rhyngrwyd gartref yn gwarantu cyflawniad cymdeithasol nac addysgol. Mae'n dibynnu'n helaeth ar sut y caiff ei ddefnyddio a'i reoli a'r math o blentyn sydd yn ei ddefnyddio.

Mae agweddau rhieni at y rhyngrwyd yn hynod o arwyddocaol gan mai nhw yw ceidwaid y porth.

- 1.14 Mae'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod cael rhyngrwyd yn y cartref yn beth normal, sydd â mwy o fanteision nag o nodweddion negyddol.
- 1.15 Mae rhieni'n cael rhyngrwyd am amrywiol resymau. Ymddengys mai'r prif reswm yw buddsoddi i helpu addysg eu plant. Mae rhai rhieni'n cael y rhyngrwyd i'w plant oherwydd bod eu plant yn eu plagio am y peth yn hytrach nag oherwydd eu bod yn deall beth yw'r manteision. Mae rhieni eraill fel pe baent yn fwy ymwybodol o'r manteision posibl iddynt hwy hefyd ac roedd hwn yn ffactor arall oedd yn dylanwadu ar eu penderfyniad. Unwaith y mae'r rhyngrwyd yn y cartref daw'n rhan o fywyd yn gyflym iawn ac fe'i hystyrir fel 'rhywbeth y mae'n rhaid ei gael'.

Mae sut y caiff ei reoli gan rieni yn gallu effeithio ar yr effaith sydd gan y rhyngrwyd ar blant.

- 1.16 Mewn cartrefi lle mae rhieni yn ymddangos sgiliau magu plant gwan neu aneffeithiol, gall cael mynediad i'r rhyngrwyd waethygu problemau sydd eisoes yn bodoli o fewn teuluoedd. Roedd tystiolaeth yn bodoli o raniadau a diffyg cyfathrebu cynyddol rhwng rhieni a'u plant. Gall hyn wneud i'r rhieni deimlo yn fwy ynysig ac allan o gysylltiad gyda'u plant.
- 1.17 Gall oedran y plentyn, a'r nifer o blant sydd yn y cartref effeithio hefyd ar y modd y caiff ei ddefnyddio. Mae plant iau yn treulio llai o amser arno o'i gymharu â phlant hŷn a phobl ifanc sy'n gallu mynd yn gaeth iddo. Mae'r rheswm am hyn yn rhannol oherwydd eu diddordeb mewn pethau eraill ac yn aml oherwydd methu â chael llawer o amser ar y rhyngrwyd. Mewn cartrefi gyda mwy na dau blentyn gall y rhyngrwyd achosi dadlau rheolaidd ynglŷn â thro pwy ydy hi i ddefnyddio'r rhyngrwyd.
- 1.18 Mae'r rhan fwyaf o rieni yn cytuno bod cael rhyngrwyd yn y cartref yn debygol o roi rhyw fantais i'w plant yn y dyfodol. Trwy ei gyflwyno yn y cartref pan maent yn yr ysgol gynradd mae cred gyffredinol bod hynny'n eu helpu i adeiladu sgiliau, gwybodaeth a hyder. Mae rhieni'n

credu, heb y sgiliau hyn ac ymarfer rheolaidd gartref, y bydd plant dan anfantais o ran eu haddysg a rhagolygon swyddi yn y dyfodol. Mae'r gred hon yn seiliedig ar deimladau yn hytrach nag ar ffeithiau cadarn.

Rhieni gyda rhyngrwyd yn y cartref

- 1.19 Y rhieni sydd yn fwyaf brwdfrydig ynglŷn â'r rhyngrwyd yw'r **Arbenigwyr technegol**. Dynion ar y cyfan yw'r rhain sydd â diddordeb mawr mewn technoleg yn gyffredinol ac sydd yn wybodus iawn amdano. Byddant yn tueddu i dra arglwyddiaethu dros y defnydd o'r rhyngrwyd yn y cartref ac mae eu plant yn gorfod cystadlu i gael ei ddefnyddio.
- 1.20 Mae **Eiriolwyr** yn gymysgedd o fathau gwahanol o rieni. Mae'r **Eiriolwyr Hyderus** yn ddefnyddwyr hyderus o dechnoleg ac maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd. Maent yn ei ddefnyddio mewn amrywiol ffyrdd, yn amrywio o gefnogi rhedeg y cartref (talw biliau, siopa ar-lein) i gefnogi eu diddordebau (lawr lwytho cerddoriaeth, archebu gwyliau, chwarae bingo).
- 1.21 Yna ceir yr **Eiriolwyr Ofnus**, nad ydynt yn gyffredinol mor gyfforddus â hynny gyda thechnoleg a gallant fod yn eithaf ofnus o'r rhyngrwyd. Yn aml nid oes gan y rhieni hyn lawer o hyder yn gyffredinol ac mae ganddynt lawer yn gyffredin o ran agwedd gyda'r math **Ofnus** a nodir ymysg y rhieni heb fynediad i'r rhyngrwyd.
- 1.22 Er gwaethaf eu diffyg hyder, maent yn cydnabod ei fod yn cynnig manteision mawr i'w plant ac maent wedi eu cymell i'w gael i sicrhau nad yw eu plant dan anfantais. Efallai bod yr eiriolwyr ofnus wedi penderfynu cael y rhyngrwyd oherwydd dylanwad eu plant sydd yn debygol o fod wedi rhoi cryn bwysau arnynt i wneud hynny.
- 1.23 Dim ond yn ddiweddar y mae'r **Rhai sydd wedi Troi yn Ddiweddar** wedi cael mynediad i'r rhyngrwyd ac maent wrth eu boddau yn darganfod beth y gallant ei wneud ag ef. Maent yn gallu mynegi'r manteision iddynt hwy eu hunain ac i'w plant yn dda iawn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, unwaith y mae gan deuluoedd y rhyngrwyd mae'n dod yn rhan normal a hanfodol o'u bywydau.

- 1.24 Tra bod y rhan fwyaf o rieni yn ei chael yn anodd dychmygu bywyd teulu heb y rhyngrwyd, amlygwyd nifer o broblemau posibl oherwydd bod rhyngrwyd yn y cartref: ffraeo dros fynediad ymysg brodyr a chwiorydd; posibilrwyd o fynd yn gaeth i gemau ac MSN; rhaniadau cynyddol o fewn y cartref; a materion diogelwch posibl yn ymwneud ag ystafelloedd sgwrsio a dwyn hunaniaeth.
- 1.25 Mae plant a rhieni yn cydnabod y gwendidau hyn, ond gall rhieni sydd â rhyngrwyd a rhieni heb y rhyngrwyd deimlo y gellir rheoli'r risgiau hyn os ydynt yn cynnal rheolaeth. Defnyddir nifer o strategaethau, yn

cynnwys rhoi'r cyfrifiadur mewn man cyhoeddus yn y cartref, gosod rheolau ynglŷn â mynediad a chynnal deialog agored a rheolaidd gyda'u plant.

- 1.26 Ond gall y gwendidau hyn ymddangos yn fwy niweidiol pan nad yw rhieni yn cynnal rheolaeth. Mae hyn yn amlwg mewn cartrefi rhai **Eiriolwyr Ofnus** a gallai fod yn wir mewn cartrefi lle mae'r plant fel pe baent yn gosod yr agenda yn hytrach na'u rhieni.

Rheini heb ryngrwyd yn y cartref

- 1.27 Roedd ychydig o wahaniaethau rhwng y teuluoedd, er nad oedd graddau'r gwahaniaethau hyn yn ymddangos cymaint â hynny. Efallai bod gan rai modelau nad oeddent mor fodern a llai o dechnoleg o bosibl yn y cartrefi yn gyffredinol. Efallai hefyd bod ganddynt agwedd mwy gofalus a thraddodiadol tuag at wario ac felly yn llai bodlon gwario am gyfrifiadur a rhyngrwyd ar gredyd.
- 1.28 Roedd rhai yn rheoli mwy ar eu plant ac yn llai tebygol o ildio i blagio; efallai bod y rheolau yn y cartref yn llymach ac yn fwy tebygol o benderfynu beth sy'n cael dod i'r cartref. Gall fod gan y plant llai o reolaeth dros y penderfyniad i gael rhyngrwyd.

Ymysg y rhieni heb ryngrwyd, nododd yr ymchwil dri math gwahanol o rieni. Ymddengys mai ofn oedd wrth galon penderfyniad y rhieni hyn i beidio â chael rhyngrwyd yn y cartref. Mae graddau a rhesymau dros yr ofn hwn yn gwahaniaethu rhwng mathau.

- 1.29 Y rhai sydd yn fwyaf annhebygol o gael y rhyngrwyd gartref yw'r rhieni **Ofnus**. Yn aml nid yw'r rhieni hyn yn deall cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Maent yn teimlo bygythiad wrth gael y dechnoleg hon yn y tŷ, maent yn ofni methu â'i reoli ac yn poeni y bydd yn eu hynysu ac yn eu tanseilio o fewn y cartref. Gall yr ofn hwn o gael eu hynysu fod yn neilltuol o gryf lle mae'r rhiant eisoes wedi'i eithrio yn gymdeithasol a lle mae gafael y rhiant dros y teulu eisoes yn wan. Gallant, o ran agwedd a dull o fagu plant fod yn debyg iawn i **Eiriolwyr Ofnus**.

- 1.30 Mae rhyw yn effeithio ar sut y caiff bod yn ofnus ei gyflwyno.

Gall tadau fod yn fwy dogmataidd ac ymddangos yn fwy pendant yn eu dewis i beidio â chael y rhyngrwyd. Yn aml maent yn dyfynnu rhesymau sydd yn ymddangosiadol resymegol dros eu dewis; er enghraifft, diogelu eu plant rhag rheibwyr ar y rhyngrwyd a'u pryderon am dwyll hunaniaeth. Maent yn hyderus, er bod eu hagwedd braidd yn amddiffynol fel pe bai yn cuddio eu natur fregus a'u hansicrwydd.

- 1.31 Mae mamau yn dueddol o fod yn amlwg ofnus. Maent yn mynegi eu hofnau ynglŷn â siomi eu plant ond ar yr un pryd maent yn hawlio nad oes ganddynt y cymhelliant, y wybodaeth na'r gallu i wneud unrhyw beth amdano.

- 1.32 Y **Cynllunwyr** yw'r rhai sydd agosaf at gael y rhyngwrwyd yn y cartref i'w plant. Maent yn aml wedi delio â'r rhwystrau emosiynol ac yn y camau olaf o gael yr arian i brynu cyfrifiadur.
- 1.33 Yna, ceir yr **Ystyrwyr** sydd ychydig ymhellach i ffwrdd a gallant ddal i fod yn eithaf ofnus, ond maent yn dychmygu y bydd ganddynt gyfrifiadur yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.
- 1.34 Yr adeg dyngedfennol pan fo'r **Cynllunwyr a'r Ystyrwyr** hyn yn cymryd cam i gael y rhyngwrwyd yw pan fo pwysau cynyddol arnynt wrth i'w plant gyrraedd a mynd trwy ysgol uwchradd.

Oblygiadau

- 1.35 Mae gan yr holl rieni nad oes ganddynt ryngwrwyd gartref bryderon ariannol go iawn. Maent yn poeni sut y byddant yn talu am y caledwedd a'r costau parhaus. Gall eu canfyddiadau am gostau fod yn afrealistig ac felly byddai'n ddefnyddiol i'w helpu i weithio allan faint y bydd yr holl becyn y byddant ei angen yn ei gostio mewn gwirionedd, ac o fewn hynny, pa lefel o offer a chyflymdra band eang y maent ei angen mewn gwirionedd.
- 1.36 Yn aml gall rhieni heb y rhyngwrwyd fod yn ofnus o gael eu heithrio yn gymdeithasol gan nad oes ganddynt fawr ddim sgiliau sylfaenol cyfrifiadurol. Gallant hefyd deimlo yn ddi-rym i reoli ei ddefnydd. Mae cyfle i rymuso'r rhieni hynny; gellir er enghraifft helpu'r rhieni hynny i gael y mwyaf allan o'r rhyngwrwyd, eu haddysgu am beth y gall ei wneud iddynt ac i'w plant. Ymddengys bod angen eu hannog yn ofalus o ddefnyddio'r cyfleuster eu hunain a gwneud llyfrgelloedd a manau cymunedol yn fwy hwyliog ac yn fwy ymlaciol er mwyn annog defnydd. Ond gall llyfrgelloedd ymddangos yn lleoedd dysgu eithaf ffurfiol a gall rhieni nad ydynt yn hyderus deimlo'n ofnus i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn y math hwn o amgylchedd.
- 1.37 Y **Rhai Ofnus** yw'r rhieni anoddaf i'w cyrraedd. Yn aml maent angen system ehangach o help i'w galluogi i oresgyn y rhwystrau i gael mynediad. Un enghraifft yn unig yw mynediad i'r rhyngwrwyd lle y maent wedi colli cysylltiad gyda'r gymdeithas ehangach. Yn aml nid ydynt erioed wedi gweithio, neu maent wedi gadael y gweithlu flynyddoedd yn ôl. Gallant fod wedi'u hynysu yn gymdeithasol gyda chysylltiadau gyda'u teulu agos yn unig. Maent angen cefnogaeth i gael hyder ym mhob agwedd o'u bywydau. Yn aml nid oes ganddynt unrhyw sgiliau TG a gall hynny ddwysau eu hofnau.
- 1.38 Er mwyn cyrraedd y **Rhai Ofnus** hyn mae angen datrys eu hofnau sydd yn aml yn afresymol, a rhoi hyder iddynt trwy addysg anffurfiol. Mae ganddynt nifer anghymesur syniadau negyddol am y rhyngwrwyd. Dylid herio'r rhain a rhoi mwy o bwyslais ar beth y gall y rhyngwrwyd ei gynnig iddynt hwy ac i'w plant. Gellid efallai cysylltu hyn â pholisi ysgol,

trwy gynnwys y rhieni mewn TGC. Gallai ysgolion annog rhieni i gael rhyngrwyd yn y cartref a chefnogi'r rhai heb sgiliau. Ond, gall profiadau negyddol y rhieni eu hunain o ysgol fod yn rhwystr pellach i ddysgu am y rhyngrwyd mewn amgylchedd ysgol ac mae hwn yn fater y byddai angen mynd i'r afael ag ef ymhellach.